CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 25ain MEHEFIN 2019.

1 PRESENNOL:

Cynghorwyr Ms Linda Jones (Cadeirydd), Mr Cynrig Jones, Mrs Barbara McKeaveney, Mr Raymond Evans, Mr Derek Hughes, Mr John Pritchard, Mrs Carol McGregor, Ms Rhian Roberts, Mrs Ffion Mon Bullock a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

2 YMDDIHEURIAD:

Cynghorydd Mr Ian Owen a Mr Einion Parry Williams.

3 CROESO & DATGAN DIDDORDEB RHAGFARNOL.

3.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

3.2 Croesawyd Cynghorydd Mrs Ffion Mon Bullock i'w chyfarfod cyntaf.

3.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyn-cadeirydd Mrs Barbara Mckeaveney am gadeirio'r cyngor yn ffyddlon am y dair blynedd diwethaf.

3.4. Nid oedd unrhyw aelod wedi datgan diddordeb mewn unrhyw eitem a oedd ar y rhaglen.

4 DERBYN ADRODDIAD ARCHWILYDD MEWNOL & ARWYDDO Y DDOGFEN BLYNYDDOL.

4.1 Darllenwyd ac fe nodwyd aelodau sylwadau yr archwilydd mewnol a oedd wedi canolbwyntio fod angen sylw pellach ar rhestr buddiannau y Cyngor, cywiro y drefn o dalu PAYE ac hawlio y TAW cyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn dangos ffigurau pendant.

4.2 Darllenwyd ac fe dderbyniwyd (RE/RR) y cyfrifion yn ogystal a gofynion y ddogfen blynyddol ac fe arwyddwyd gan y Cadeirydd a gofyn i'r Clerc anfon ymlaen i'r Archwilydd Allanol (BDO).

4.3 Diolchwyd i'r Clerc am yr holl waith o sicrhau fod anghenion y ffurflen yn gywir.

4.4 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am ddod ac fe clowyd y cyfarfod am 7:45yh.

Arwyddo……Cadeirydd……Dyddiad.